# ATODLENNI

## ATODLEN 1

Rheolau cynnal etholiad cynghorwyr ar gyfer prif ardal pan na chynhelir y bleidlais ynghyd â phleidlais mewn etholiad arall

## RHAN 6

### Marwolaeth Ymgeisydd

**Diddymu pleidlais neu roi'r gorau iddi ar ôl i ymgeisydd farw**

**67.**—(1) Mae'r rheol hon yn gymwys pan fo'r swyddog canlyniadau, mewn etholiad lle ceir gornest, wedi ei fodloni cyn i ganlyniad yr etholiad gael ei ddatgan fod un o'r personau a enwyd neu sydd i'w enwi yn ymgeisydd yn y papurau pleidleisio wedi marw.

(2) Rhaid i'r swyddog canlyniadau ddiddymu hysbysiad y bleidlais neu, os yw'r pleidleisio wedi dechrau, rhaid i'r swyddog canlyniadau gyfarwyddo rhoi'r gorau i'r bleidlais ac ni chaniateir dyroddi rhagor o bapurau pleidleisio.

(3) Pan roddir y gorau i'r bleidlais, rhaid i'r swyddog llywyddu mewn unrhyw orsaf bleidleisio sy'n cael ei defnyddio yn yr etholiad gymryd y camau (i'r graddau nad ydynt eisoes wedi eu cymryd) y byddai'n ofynnol i'r swyddog llywyddu eu cymryd o dan reol 51 ar ddiwedd y bleidlais, ac eithrio nad oes angen i'r swyddog llywyddu baratoi cyfriflen papurau pleidleisio.

(4) Rhaid i'r swyddog canlyniadau ymdrin â phapurau pleidleisio a dogfennau eraill sydd ym meddiant y swyddog canlyniadau pan roddir y gorau i'r bleidlais, neu a ddanfonir i'r swyddog canlyniadau wedyn er mwyn cydymffurfio â pharagraff (3), yn yr un modd ag y byddai'n ofynnol i'r swyddog canlyniadau ymdrin â phapurau pleidleisio a dogfennau eraill o dan reolau 61 a 62 ar ôl cwblhau cyfrif y pleidleisiau, ac eithrio—

(a) bod rhaid i'r swyddog canlyniadau selio'r holl bapurau pleidleisio (p'un a yw'r pleidleisiau arnynt wedi eu cyfrif ai peidio), a

(b) nad oes angen selio papurau pleidleisio a gyfrifwyd ac a wrthodwyd mewn pecynnau ar wahân.

(5) Mae darpariaethau rheolau 63 i 65 yn gymwys i bapurau pleidleisio a dogfennau eraill sy'n ymwneud â phleidlais y rhoddwyd y gorau iddi oherwydd marwolaeth ymgeisydd, ac eithrio—

(a) bod papurau pleidleisio na chafodd y pleidleisiau arnynt eu cyfrif na'u gwrthod i'w trin fel papurau pleidleisio a gyfrifwyd, a

(b) y caniateir i orchymyn gael ei wneud o dan reol 63(2) neu (3) er mwyn cychwyn neu gynnal erlyniad am drosedd mewn perthynas â phapurau pleidleisio yn unig.

(6) O ran yr hyn sy'n digwydd ar ôl i hysbysiad o bleidlais gael ei ddiddymu neu ar ôl rhoi'r gorau i bleidlais, gweler adran 39 o Ddeddf 1983(**1**).

(**1**) Diwygiwyd adran 39 gan adran 19 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985, paragraff 68 Atodlen 16 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19) a pharagraff 2(7) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.